



Amser i Siarad Iechyd Cyhoeddus: Creu a Sefydlu Panel sydd â Chynrychiolaeth Genedlaethol

Protocol

Tachwedd 2022

Tudalen Gynnwys

1.	Crynodeb o'r Prosiect.....	3
2.	Cefndir	5
2.1.	Nod ac amcanion	5
3.	Dulliau.....	6
3.1.	Recriwtio	6
3.1.1.	Sampl Recriwtio	6
3.1.2.	Meini prawf cynnwys ac eithrio.....	7
3.2.	Dull Recriwtio	7
3.2.1.	Dull Recriwtio Unigol	7
3.2.2.	Cyfradd y Rhai sy'n Gwrthod Cymryd Rhan.....	9
3.2.3.	Cymhelliant.....	9
3.3.	Gweithdrefn Recriwtio	9
3.3.1.	Arolygu	10
3.4.	Hyfforddiant cyfwelwyr	11
3.5.	Rheoli a dadansoddi data.....	12
3.5.1.	Llywodraethu gwybodaeth.....	12
3.5.2.	Storio data	12
3.5.3.	Sicrhau ansawdd y data	13
3.5.4.	Dadansoddi data ac adrodd.....	13
4.	Amserlenni	13
5.	Allbynnau.....	14
6.	Rheoli'r Prosiect	14

1. Crynodeb o'r Prosiect

Teitl	Amser i Siarad Iechyd Cyhoeddus: Protocol
Rhesymwaith	<p>Mae Iechyd Cyhoeddus Cymru yn nodi bod y cyhoedd yn bartner allweddol yn eu prosesau gwneud penderfyniadau Mae'r dull hwn yn cyd-fynd â Phum Ffordd o Weithio Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, sy'n tynnu sylw at egwyddor 'Ymgysylltu' Bydd y panel sgwrsio cenedlaethol yn galluogi ymgysylltu rheolaidd â'r cyhoedd er mwyn llywio a chefnogi'r gwaith o gyflawni uchelgeisiau strategol Iechyd Cyhoeddus Cymru Bydd y panel yn gyfle i rymuso pobl a chymunedau i gyfrannu eu safbwyntiau ar faterion iechyd y boblogaeth sy'n effeithio arnyn nhw a chenedlaethau'r dyfodol. Bydd y panel yn caniatáu i Iechyd Cyhoeddus Cymru weithio gyda'r bobl a'r poblogaethau yr ydym yn eu gwasanaethu ac hysbysu rhanddeiliaid ar yr hyn sydd bwysicaf i bobl sy'n byw yng Nghymru.</p>
Nodau ac Amcanion	<p>Nod cyffredinol y prosiect yw sefydlu panel ymgysylltu cyhoeddus o breswylwyr 16+ oed yng Nghymru y gellir eu holi'n rheolaidd ar faterion allweddol o bwys ym maes iechyd cyhoeddus allweddol er mwyn cynnig safbwynt cynrychioliadol cenedlaethol i lywio gwaith Iechyd Cyhoeddus Cymru.</p> <p>Y prif amcanion yw:</p> <ul style="list-style-type: none"> - Gwneud gwaith recriwtio cychwynnol i gael sampl o 2,500 o drigolion Cymru er mwyn galluogi samplau arolwg misol o 1,000 o ymatebion cynrychioliadol cenedlaethol. - Peilota'r dull arolwg panel o ganfod dulliau gorau posibl o gyflawni a chyfranogi (e.e. cyfraddau cadw, dulliau cyfranogi a ffefrir, hyd cyfranogi, rhesymau tynnu'n ôl). - Gweithredu'r panel poblogaeth ($n \approx 1,1,000$ y mis) yn fisol.
Cyfranogion	Aelodau'r cyhoedd sy'n 16 oed ac sy'n hŷn ac sy'n byw yng Nghymru.

<p>Cynllun</p>	<p>Bydd panel sy'n gynrychiadol yn genedlaethol yn cael ei sefydlu lle cynhelir arolygon misol gydag aelodau o'r cyhoedd yng Nghymru. Bydd y panel yn cael ei ddatblygu drwy gyfnod peilot, a fydd yn llywio gweithrediad arferol.</p> <p>Mae cwmni ymchwil marchnad (MRS; DJS Research Ltd) wedi ei gaffael i ymgymryd â datblygu panel a gwaith maes. Bydd cyfranogion yn cael eu recriwtio dros y ffôn, wyneb yn wyneb ac ar-lein a bydd y cyfnod peilot yn archwilio'r dulliau gorau posibl o recriwtio cyfranogion a chylchdro panel. Bydd pob arolwg panel misol yn targedu sampl o 1,000 o drigolion, gydag arolygon a wneir dros y ffôn neu ar-lein yn seiliedig ar ddewis cyfranogion unigol Bydd data ffug-ddienw yn cael eu trosglwyddo i Iechyd Cyhoeddus Cymru i'w dadansoddi ac er mwyn ysgrifennu adroddiadau.</p>
<p>Lleoliad</p>	<p>Cymru</p>
<p>Dyddiad dechrau - gorffen y prosiect</p>	<p>Bydd y cyfnod peilot yn rhedeg o fis Medi 2022 i fis Mawrth 2023, gyda'r gwaith gweithredu arferol wedi'i ariannu'n gychwynnol ar gyfer Ebrill 2023 i fis Mawrth 2024.</p>
<p>Tîm y prosiect</p>	<p>Yr Athro Karen Hughes (karen.hughes18@wales.nhs.uk) Dr Catherine Sharp (Catherine.sharp@wales.nhs.uk) Dr Rebecca Hill (Rebecca.Hill@wales.nhs.uk)</p>
<p>Cyllid</p>	<p>Ariennir y prosiect gan Iechyd Cyhoeddus Cymru</p>

2. Cefndir

Fel sefydliad iechyd cyhoeddus cenedlaethol Cymru, mae Iechyd Cyhoeddus Cymru yn gweithio i ddiogelu a gwella iechyd a lles a lleihau anghydraddoldebau iechyd i bobl Cymru Drwy Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 (WFGA), mae gofyn i Iechyd Cyhoeddus Cymru a chyrff cyhoeddus eraill yng Nghymru feddwl am effaith hirdymor eu penderfyniadau; i weithio'n well gyda phobl, cymunedau, a'i gilydd; ac i atal problemau parhaus megis tlodi, anghydraddoldebau iechyd a'r newid yn yr hinsawdd. Yn bennaf, mae'r WFGA yn nodi'r cyhoedd yn brif randdeiliad wrth wneud penderfyniadau, ac mae 'Cyfraniad' yn un o'r Pum Ffordd o Weithio.

Mae gan Iechyd Cyhoeddus Cymru hanes llwyddiannus o ymgysylltu â'r cyhoedd yn rhanddeiliaid allweddol ar faterion o bwysigrwydd iechyd cyhoeddus drwy arolygon poblogaeth sy'n gynrychiadol yn genedlaethol. Mae enghreifftiau nodedig yn cynnwys arolwg 'Aros yn Iach yng Nghymru' 2018, a oedd yn gofyn am farn unigolion sy'n byw yng Nghymru ar amrywiaeth o faterion iechyd cyhoeddus er mwyn llywio datblygiad strategaeth hirdymor Iechyd Cyhoeddus Cymru ar gyfer 2018-2030. Yn fwy diweddar, roedd arolwg ymgysylltu â'r cyhoedd yn 2020-2022 wedi gofyn am farn y cyhoedd yng Nghymru am iechyd a lles yn ystod pandemig y Coronafeirws. Bu'r arolwg cynrychioliadol cenedlaethol hwn yn holi tua 28,000 o bobl rhwng Ebrill 2020 a Mawrth 2022. Mae'n gwasanaethu'n esiampl o ddull ymatebol iawn o ddal safbwyntiau cyhoeddus yn ystod amgylchedd polisi sy'n newid yn gyflym, gyda chwestiynau wedi'u haddasu, eu hychwanegu, neu eu dileu mewn ymateb i geisiadau pwrpasol a newidiadau yn rheoliadau'r Coronafeirws.

Gan adeiladu ar yr arolygon ymgysylltu â'r cyhoedd a grybwyllwyd uchod, bydd y prosiect hwn yn sefydlu panel cynrychioliadol cenedlaethol parhaus i gasglu canfyddiadau gan aelodau'r cyhoedd i lywio a chefnogi cyflawni uchelgeisiau strategol Iechyd Cyhoeddus Cymru. Bydd y panel yn rhoi'r grym i bobl a chymunedau gyfrannu eu safbwyntiau ar faterion iechyd y boblogaeth sy'n effeithio arnyn nhw a chenedlaethau'r dyfodol. Bydd canlyniadau a'r hyn a ddysgir o'r panel yn llywio penderfyniadau, polisi, cyfathrebu, dylunio gwasanaethau a chyflawni, gan ganolbwyntio ar greu Cymru iachach, fwy cyfartal, gwydn, ffyniannus, a chyfrifol yn fyd-eang. Yn dilyn recriwtio, bydd arolygon panel misol yn cael eu gweinyddu, gan ddarparu'r ymatebolrwydd uchaf i faterion sy'n dod i'r amlwg o iechyd y boblogaeth a diddordeb gwleidyddol, a chyda newid cyflym drwy ddadansoddi data ac adrodd er mwyn sicrhau adborth cyflym i aelodau'r panel a rhanddeiliaid allweddol.

2.1. Nod ac amcanion

Nod y prosiect yw sefydlu panel ymgysylltu â'r cyhoedd o breswylwyr yng Nghymru sy'n 16+ oed ac y gellir eu cynnwys yn rheolaidd ar faterion o bwys allweddol ym maes iechyd y cyhoedd i ddarparu persbectif cynrychioliadol cenedlaethol Y prif amcanion yw:

- Gwneud gwaith recriwtio cychwynnol i gael sampl o 2,500 o drigolion Cymru er mwyn galluogi samplau arolwg misol o 1,000 o ymatebion cynrychioliadol cenedlaethol.
- Treialu'r dull arolwg panel o ganfod dulliau gorau posibl o gyflawni a chyfranogi (e.e. cyfraddau cadw, dewis dull, hyd cyfranogiad, rhesymau ymadael).
- Gweithredu'r panel poblogaeth ($n \approx 1,1,000$ y mis) yn fisol.

3. Dulliau

Mewn ymgynghoriad â Thîm y Prosiect, mae cwmni ymchwil marchnad proffesiynol (MRC;DJS Research Ltd) wedi'i gomisiynu i ymgymryd â sefydlu, treialu, a gweithredu'r panel poblogaeth o fis Medi 2022 i fis Mawrth 2024. Bydd yr holl weithdrefnau yn cael eu hasesu am risg COVID-19, lle bo'n briodol a gan y sefydliad sy'n gyfrifol.

3.1. Recriwtio

3.1.1. Sampl Recriwtio

Bydd defnyddio techneg samplu i sefydlu'r panel yn cefnogi'r panel a recriwtiwyd yn gyffredinol i ddarparu persbectif cynrychioliadol cenedlaethol trwy bob arolwg misol. Bydd dull samplu cwota haenedig yn cael ei ddefnyddio. Bydd dau fath o gwotâu yn cael eu cymhwyso i'r sampl: cwotâu caled (heb eu trafod) a chwotâu meddal (sy'n cael eu monitro i leihau tuedd yn y sampl lle bo modd). Rhagwelir y bydd y gyfradd ymateb fisol yn uchafswm o 50% (gan amrywio o 35% i 50%). O'r herwydd er mwyn cael sampl arolwg misol o 1,000 o ymatebion cynrychioliadol cenedlaethol, mae angen i'r panel gynnwys tua 2.5 gwaith y nifer hwn o bobl. Bydd setiau data interim yn cael eu rhannu'n rheolaidd i Dîm y Prosiect i fonitro cynnydd recriwtio cyffredinol, ynghyd ag asesu ymlyniad recriwtio at y cwotâu caled.

Y cwotâu caled yw i) daearyddiaeth (h.y. bwrdd iechyd), ii) oed, iii) rhyw a iv) cwantel amddifadedd (fel y penderfynir gan Fynegai Amddifadedd Lluosog Cymru; WIMD). Bydd samplu yn cael ei haenu gan ardal y Bwrdd Iechyd gyda thargedau cwota i gyflawni sampl lled gynrychiadol. Bydd Amcangyfrifon Canol Blwyddyn Poblogaeth Cymru a gyhoeddir gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol yn cael eu defnyddio i lywio cyfrannau cwota, yn seiliedig ar recriwtio 2,500 o bobl.

Y cwotâu meddal a gaiff eu hystyried yw i) ethnigrwydd, ii) statws siarad Cymraeg, a iii) statws anabledd. Bydd y rhain yn cael eu hystyried gan Dîm y Prosiect, gyda chymariaethau yn cael eu gwneud naill ai â Chyfrifiad 2021 neu'r Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth, lle mae ar gael ac yn briodol.

Yn hanesyddol, mae rhai carfanau o'r boblogaeth wedi bod yn anodd eu cynnwys mewn arolygon sy'n golygu bod eu safbwyntiau'n cael eu tangynrychioli weithiau. O ganlyniad, cynhelir gorsamplu rhai grwpiau i'r panel er mwyn cynyddu'r cyfle o sicrhau ymateb cynrychioliadol i'r arolygon misol. Dyma'r grwpiau fydd yn cael eu gorsamplu a'r ganran y byddan nhw'n cael eu gorsamplu:

- Amddifadedd: Gorsamplu 10% - WIMD Chwarteli 1 a 5; Dan-samplu 5-10% - Chwarteli 2-4.
- Oedran: Gorsamplu 15% mewn pobl ifanc 16–34 oed, 10% yn y bobl ifanc 35–44 oed; Dan-samplu 10% o bob person 45-64 oed, 10-15% yn y categori 65+ oed.
- Ethnigrwydd: Gorsamplu 20% mewn grwpiau lleiafrifoedd ethnig.

3.1.2. Meini prawf cynnwys ac eithrio

Dyma'r meini prawf cynnwys am y panel:

- Preswlydd yng Nghymru (un unigolyn i bob cartref)
- 16 oed neu'n hŷn
- Gallu cymryd rhan yn yr arolwg yn wybyddol

3.2. Dull Recriwtio

Defnyddir dull aml-ddull i recriwtio'r panel, gan gynnwys dros y ffôn, wyneb yn wyneb a thargedu'r cyfryngau cymdeithasol. Bydd tua 1,300 o unigolion yn cael eu recriwtio dros y ffôn, 700 trwy wyneb yn wyneb, a ~500 pellach drwy dargedu'r cyfryngau cymdeithasol. Os, ar ôl dihybyddu'r tri dull yn y llinell amser ar gyfer y recriwtio cychwynnol, nid yw'r recriwtio i'r cwotâu caled wedi'u cwblhau, defnyddir arolwg panel presennol yr MRC ei hun (Cyfnewidfa Barn; OpEx) i gwblhau'r cwotâu caled angenrheidiol.

3.2.1. Dull Recriwtio Unigol

Dull 1: Ffôn

Gan ddefnyddio targedau cwota caled y cytunwyd ymlaen llaw, bydd gwybodaeth adnabod yn bersonol yn cael ei phrynu gan yr MRC o asiantaeth cyrchu samplau ag enw da sydd â'r caniatâd angenrheidiol i ddefnyddio cysylltiadau at ddibenion ymchwil marchnad. Bydd y wybodaeth a brynir yn cynnwys amrywiaeth o rifau ffôn symudol a llinell dir fesul cwintel daearyddol ac

amddifadedd, rhyw, ac oedran. Caiff unigolion eu ffonio hyd at bum gwaith nes bod y cyswllt yn cael ei labelu yn un sydd wedi'i ddi-hysbyddu.

Dull 2: Targedu'r cyfryngau cymdeithasol

Bydd y llwyfannau cyfryngau cymdeithasol Facebook ac Instagram yn cael eu defnyddio i dargedu'r cwotâu; Bydd carfanau iau yn enwedig yn cael eu targedu. Bydd amrywiaeth o asedau creadigol (e.e. hysbyseb statig, hysbyseb animeiddio fideo, a hysbyseb sefydlog pellach gyda math gwahanol o neges) yn cael ei ddefnyddio yn y targedu. Gall system targedu'r cyfryngau cymdeithasol MRC ganfod pa hysbysebion sy'n perfformio orau ar gyfer pa fath o recriwtio i'w gwneud hi'n bosibl addasu'r targedu yn unol â hynny.

Dull 3: Wyneb yn wyneb

Yn seiliedig ar y samplu cwota, bydd ardaloedd a grwpiau demograffig penodol yn cael eu targedu i lenwi'r cwotâu. Ar gyfer samplu cwota amddifadedd, bydd LSOAs yn cael eu nodi ar hap i'w neilltuo i'r cyfwelwyr ymweld â nhw ar gyfer llenwi'r arolwg wyneb yn wyneb. Ar gyfer targedu grŵp demograffig, bydd ystadegau poblogaeth ar gyfer LSOA yn cael eu dewis sydd â chrynodiad uwch o'r grŵp demograffig sydd ei angen; ni ddewisir LSOAs ar hap ar gyfer y rhain.

Dull 4: OpEx Recruitment

Mae gan yr MRC banel presennol o gyfranogwyr o bob rhan o'r Deyrnas Unedig, gyda chyfran sy'n breswylwyr yng Nghymru. Os yw'n agos at ddiwedd y cyfnod recriwtio, mae angen peth demograffeg yn debyg i'r rhai sy'n aelodau o banel OpEx, gwahoddir yr unigolion hyn i gymryd rhan yn y Panel hefyd.

3.2.1.1. Recriwtio Ychwanegol

O brofiad yr MRC gellir disgwyl cyfradd gadael o 15-20%, a fydd yn amrywio yn ôl gwahanol grwpiau. O ganlyniad, bydd recriwtio yn parhau i ddefnyddio dull 'ychwanegol' yn ôl yr angen drwy'r cyfnod peilot a chyfnod gweithredu'r arolwg panel. Rhagwelir y bydd demograffeg sampl yn cael eu gwerthuso bob dau fis, ac y bydd recriwtio ychwanegol yn digwydd yn dibynnu ar anghenion y sampl. Er enghraifft, os bydd cyfranogion yn tynnu'n ôl, bydd angen recriwtio cyfranogion pellach sy'n cyfateb i ddemograffeg y rhai a dynnwyd yn ôl er mwyn cynnal y sampl. Cynhelir y broses ychwanegu gan ddefnyddio'r un dulliau recriwtio â'r recriwtio cychwynol: amrywiaeth o ffôn ac wyneb yn wyneb, gyda hwb drwy dargedu'r cyfryngau cymdeithasol. Llunnir rhestr aros o unigolion sy'n dymuno bod yn banelwyr a bydd yr unigolion hynny yn cael gwahoddiad i ymuno â'r panel pan fydd lle sy'n cyfateb â'u demograffeg ar gael.

3.2.2. Cyfradd y Rhai sy'n Gwrthod Cymryd Rhan

Er mwyn deall pwy sy'n dewis peidio â chymryd rhan yn y panel a phan fo'n bosibl, y rhesymau pam, ar ddiwedd pob galwad recriwtio aflwyddiannus gofynnir i unigolion ateb ychydig o gwestiynau byr i lywio ein dulliau recriwtio.

3.2.3. Cymhelliant

Ni fydd unrhyw gymhellion na gwobrau yn cael eu rhoi i unigolion sy'n cymryd rhan neu sydd heb gytuno i gymryd rhan yn y panel. Fodd bynnag, gofynnir i gyfranogwyr posibl sy'n gwrthod cymryd rhan yn y Panel a fyddai derbyn cymhelliant wedi eu hannog i gymryd rhan.

3.3. Gweithdrefn Recriwtio

Ar y cyswllt cyntaf, bydd pwrpas a natur y panel yn cael ei esbonio i ddarpar gyfranogwyr. Bydd yr amlinelliad yn esbonio: i) y bydd cymryd rhan yn golygu cwblhau arolygon misol ar faterion iechyd cyhoeddus allweddol; ii) bod cymryd rhan yn gwbl wirfoddol, yn gyfrinachol a bydd yn cael ei adrodd yn ddiennw; iii) hawl cyfranogwyr i dynnu'n ôl ar unrhyw adeg; iv) sut bydd canlyniadau'r arolwg yn cael eu hadrodd a'u lledaenu; a v) ymrwymiad Iechyd Cyhoeddus Cymru i Safonau'r Gymraeg. Ar yr adeg hon, gofynnir i gyfranogwyr posibl ym mha iaith yr hoffent sgwrsio (Cymraeg neu Saesneg). Pan fo iaith ychwanegol yn cael ei ffafrio, mae gan yr MRC y gallu i gynnwys 20+ o ieithoedd yn eu tîm ac felly defnyddir adnoddau mewnol yn yr MRC.

Er mwyn atgyfnerthu'r wybodaeth a rennir ar lafar i gyfranogion (posibl), bydd 'Pecyn Croeso' sy'n cynnwys llythyr o awdurdod/taflen wybodaeth cyfranogwr o Iechyd Cyhoeddus Cymru yn cael ei roi i'r rhai sy'n cytuno i gymryd rhan neu sy'n dymuno cael rhagor o wybodaeth. Bydd y ddogfennaeth hefyd yn cyfeirio darllenwyr at dudalen we benodol i'r Panel, a geir ar wefan Iechyd Cyhoeddus Cymru a gwefannau'r MRC. Bydd fersiynau digidol yn cael eu cyhoeddi'n ddiodyn, a bydd fersiynau papur yn cael eu cyhoeddi pan fydd cais amdanynt.

Ar gyfer recriwtio dros y ffôn ac wyneb yn wyneb, bydd y gwahoddiad i gymryd rhan ac astudio gwybodaeth yn cael ei ddarparu gan gyfwelwyr MRC sydd wedi'u hyfforddi. Ar gyfer recriwtio ar y cyfryngau cymdeithasol, bydd yr MRC yn creu postiadau dwyieithog sy'n cynnwys gwybodaeth am y panel, ynghyd â dolenni at dudalen we'r panel a fydd yn gartref i wybodaeth ynghylch y prosiect a chyfranogwyr, gan gynnwys llythyr o awdurdod gan Iechyd Cyhoeddus Cymru a gwybodaeth gyswllt. Bydd yr holl gyfathrebu yn ddwyieithog (Cymraeg a Saesneg).

Os oes angen recriwtio OpEx, bydd aelodau presennol y panel yn derbyn e-bost yn eu gwahodd i gymryd rhan yn yr astudiaeth, sy'n cynnwys gwybodaeth yr astudiaeth a chyswllt tudalen we i'r wybodaeth ynghylch yr astudiaeth a gyfranogwyr.

Bydd yr MRC hefyd yn darparu e-bost awtomataidd i'w anfon at unrhyw gysylltiadau sy'n gofyn am wybod rhagor am yr ymchwil cyn cytuno i gymryd rhan. Bydd yr e-bost hwn yn rhoi gwybodaeth am yr MRC, pam eu bod yn cynnal y prosiect, beth fydd yn ei gynnwys, manylion ynghylch pwy i gysylltu â nhw am ragor o wybodaeth (e.e. Rheolwr Prosiect MRC), a gwybodaeth gyswllt Iechyd Cyhoeddus Cymru.

Ceir caniatâd gwybodus cyfranogwyr yn dilyn y disgrifiad o'r prosiect, ac wedi hynny byddant yn cael eu gwahodd i gwblhau arolwg recriwtio cychwynnol.

3.3.1. Arolygu

Bydd 'Holiadur Recriwtio' yn cael ei ddatblygu gan Dîm Prosiect ar gyfer y cyfnod peilot. Bydd cwestiynau recriwtio yn cael eu mireinio'n ddiweddarach gyda mewnbwn gan y Tîm Cynghori ac yn cael eu gweithredu o fis Ebrill 2023 ymlaen. Bydd 'Holiaduron Misol' strwythuredig yn cael eu datblygu gan y Tîm Prosiect mewn ymgynghoriad â'r Tîm Cynghori. Bydd ganddynt faes penodol o ffocws sy'n cyd-fynd â meysydd allweddol o iechyd y boblogaeth a diddordeb gwleidyddol. Bydd holiaduron yn cynnwys cwestiynau caeedig yn bennaf, a bydd cwestiynau agored yn cael eu defnyddio lle mae angen mwy o ddyfnder.

3.3.1.2. Holiaduron Recriwtio

Bydd yr Holiadur Recriwtio yn cynnwys cwestiynau ar ddemograffeg gymdeithasol, hyfedredd iaith, mecanwaith a ffeirir gan gyfranogion o gymryd rhan yn yr arolwg (e.e. dull, dydd, a hyd), a chwestiynau iechyd a lles, ynghyd â detholiad o gwestiynau ar bynciau iechyd cyhoeddus cyfredol sydd o ddiddordeb. Bydd yr holiadur hwn yn cymryd tua 15 munud i'w gwblhau. Cynhelir yr arolygon gan un o dri dull: dros y ffôn gan ddefnyddio technoleg Cyfweld Ffôn â Chymorth Cyfrifiadur (CATI); ar-lein, gan ddefnyddio meddalwedd arolwg arbenigol yr MRC; neu drwy gyfweiliad wyneb yn wyneb gan ddefnyddio Cyfweld Personol â Chymorth Cyfrifiadur (CAPI) a Hunan-gyfweld â Chymorth Cyfrifiadur (CASI) lle/os yw'n briodol.

3.3.1.3. Holiaduron Misol

Ceisir sampl darged o 1,000 o aelodau panel, sy'n sampl gynrychioliadol genedlaethol o Gymru, i gymryd rhan ym mhob arolwg misol. Bydd yr Holiaduron Misol yn cynnwys cyfuniad o gwestiynau a ailadroddir a chwestiynau misol penodol a fydd yn newid yn unol ag anghenion gwybodaeth y sefydliad.

Pan fo'n bosibl, bydd yr arolygon yn defnyddio offerynnau wedi'u dilysu, a chwestiynau sy'n deillio o arolygon blaenorol Iechyd Cyhoeddus Cymru. Bydd holiaduron yn cymryd tua 20 munud i'w cwblhau.

3.3.1.4. Cydsyniad

Gofynnir am ganiatâd gwybodus ar gyfer cyfranogi yn y panel ar adeg y cyswllt cyntaf yn ystod y cyfnod recriwtio. Bydd yr MRC yn sicrhau bod cyfranogwyr yn deall yr hyn y maen nhw'n cytuno i gymryd rhan ynddo, sut y defnyddir eu hymatebion, bod eu cyfranogiad yn wirfoddol a'u bod yn gallu tynnu'n ôl o'r panel ar unrhyw adeg. Bydd caniatâd gwybodus yn ymdrin â chymryd rhan ym mhob arolwg panel yn y dyfodol, gyda chaniatâd parhaus i gymryd rhan i'w gofnodi fel cydsyniad optio i mewn ym mhob arolwg. Gall cyfranogwyr sy'n gwrthod cymryd rhan mewn arolwg barhau i gymryd rhan mewn arolygon panel yn y dyfodol, ond ar ôl tri mis yn olynol o ddiffyg cyfranogiad, byddant yn cael eu dileu, a bydd eu gwybodaeth gyswllt bersonol yn cael ei thynnu'n ôl. Bydd yr MRC yn darparu gwybodaeth am GDPR a storio data'n ddiogel, yn unol â chanllawiau llywodraethu gwybodaeth. Bydd pawb sy'n cymryd rhan yn derbyn dogfennau ysgrifenedig sy'n ymwneud â'u caniatâd a'u hawliau i dynnu'n ôl.

3.3.1.5. Tynnu'n ôl

Gall cyfranogion dynnu'n ôl o gymryd rhan yn y panel ar unrhyw adeg. Gan y bydd adroddiadau misol yn cael eu creu ar unwaith ar ôl derbyn y ffeil ddata, bydd data o arolygon a gwblhawyd yn flaenorol eisoes wedi'u cynnwys mewn allbynnau ac ni fydd modd tynnu'r data hyn yn ôl; bydd hyn wedi'i wneud yn glir i gyfranogion yn y llythyr gwybodaeth. Bydd cyfranogwyr yn gallu tynnu allan o gyfranogi yn y dyfodol gyda'r data presennol yn gallu cael eu cynnwys mewn dadansoddiadau yn y dyfodol, neu ii) tynnu'n ôl o gyfranogi yn y dyfodol a thynnu'r holl ddata arolwg presennol yn ôl o ddadansoddiadau yn y dyfodol. Ar ben hynny, o adeg gofyn am dynnu'n ôl, ni fydd cysylltiad pellach â nhw, a chaiff eu data adnabod personol eu tynnu o'r system. Er mwyn galluogi dealltwriaeth ar broffil unigolion sy'n tynnu'n ôl a'r cyfnod y maent yn tynnu'n ôl ynddo, bydd gwybodaeth na ellir ei hadnabod ar fand oedran, rhywedd, cwintel amddifadedd, lleoliad daearyddol (h.y. bwrdd iechyd, trefol/gwledig) a rhesymau dros dynnu'n ôl yn cael ei chadw.

3.4. Hyfforddiant cyfwelwyr

Mae pob cyfwelydd wedi derbyn hyfforddiant Cymdeithas Ymchwil y Farchnad ac wedi'u hachredu gyda'r Cynllun Rheoli Ansawdd Cyfwelydd (IQCS). Bydd hyfforddiant pwrpasol ar gyfer y tîm cyfweld yn cael ei ddarparu cyn gweithredu'r prosiect i sicrhau bod cyfwelwyr yn gwbl hysbys o nod ac amcanion y prosiect a'r prosesau methodolegol. Caiff yr hyfforddiant hwn ei ddarparu i unrhyw recriwtiaid newydd yn ystod amserlen y prosiect, a bydd hyfforddiant gloywi yn cael ei weithredu yn ôl y galw. Bydd hyfforddiant yn rhoi sylw penodol

i bwysigrwydd y Gymraeg a'r prosesau a roddir ar waith i sicrhau cydymffurfiaeth â Safonau'r Gymraeg.

3.5. Rheoli a dadansoddi data

Bydd yr MRC yn darparu diweddariadau rheolaidd i Iechyd Cyhoeddus Cymru ar y cynnydd gan gynnwys cyfraddau cydymffurfio.

3.5.1. Llywodraethu gwybodaeth

Iechyd Cyhoeddus Cymru fydd y rheolydd data ar gyfer y data sylfaenol. Lle mae data ychwanegol yn cael eu cynhyrchu neu eu casglu gan yr MRC y tu hwnt i amgylchfyd y prosiect hwn (e.e. recordiadau o gyfweiliadau at ddibenion hyfforddi a sicrhau ansawdd), yr MRC fydd rheolwr data'r data hynny.

Mae Asesiad o'r Effaith ar Ddiogelu Data wedi'i gwblhau ar gyfer y prosiect drwy Iechyd Cyhoeddus Cymru ac mae Contract Prosesu Data wedi'i lofnodi rhwng Iechyd Cyhoeddus Cymru a'r MRC. Mae'r ddwy ddogfen yn nodi sut y bydd y data'n cael eu prosesu. I grynhoi, bydd yr MRC yn dal y data adnabod yn bersonol ar gyfer eu cyfnod o'u contract, a bydd cyfranogion yn cael dynodwr ffug-ddienw i alluogi cyswllt ymatebion ar draws arolygon; bydd y data adnabod yn bersonol ac ymatebion y cyfranogion i arolygon yn cael eu cynnal mewn ffeiliau data ar wahân. Caiff data ffug-ddienw eu trosglwyddo i Dîm Prosiect Iechyd Cyhoeddus Cymru i'w dadansoddi. Ni fydd Iechyd Cyhoeddus Cymru yn cadw manylion cyswllt na data personol i'r rhai sydd wedi cytuno i gymryd rhan yn y panel yn ystod y cyfnod hwn. Ond gofynnwyd am ganiatâd, pe na bai'r MRC yn cael ei gomisiynu mwyach, bod gan Iechyd Cyhoeddus Cymru'r hawliau i ddal y data lle gellir adnabod pobl yn bersonol yn unol â GDPR.

Mae Tîm y Prosiect wedi gofyn am gymeradwyaeth i'r prosiect gan swyddfa Ymchwil a Datblygu Iechyd Cyhoeddus Cymru.

3.5.2. Storio data

Bydd yr holl systemau sy'n storio data electronig yn cael eu diogelu gan gyfrinair a bydd yr holl ddata electronig yn cael eu cadw'n ddiogel. Bydd data'n cael eu casglu a'u storio yn safle'r MRC i ddechrau, ac mae'n ofynnol i'r MRC arddangos technegau storio data llym effeithiol fel rhan o'r broses gomisiynu. Rhaid i'r MRC gadw at god ymddygiad Cymdeithas Ymchwil y Farchnad a gyda GDPR. Bydd yr MRC yn trosglwyddo ffeiliau data ffug-ddienw i Dîm Prosiect Iechyd Cyhoeddus Cymru drwy system ddiogel ar gyfer trosglwyddo ffeiliau data. Bydd holl ddata'r astudiaeth yn cael eu storio o fewn ffolder cyfyngedig a rennir ar weinydd y GIG

(Iechyd Cyhoeddus Cymru). Ni fydd data'n cael eu storio ar y gyriant caled o liniaduron neu mewn systemau sy'n seiliedig ar y cwmwl.

3.5.3. Sicrhau ansawdd y data

Yn y cyfnod peilot, bydd yr MRC yn darparu darnau data ffug-ddienw rheolaidd i'r Tîm Prosiect er mwyn sicrhau ansawdd. Bydd arweinydd y prosiect yn adolygu'r data er mwyn sicrhau bod y sampl yn cyd-fynd â sampl sy'n gynrychioliadol yn genedlaethol, ac am werthoedd coll ac anghysondebau. Bydd yr MRC hefyd yn darparu ffeiliau data panel glân misol i Iechyd Cyhoeddus Cymru mewn Pecyn Ystadegol ar gyfer y Gwyddorau Cymdeithasol (SPSS).

3.5.4. Dadansoddi data ac adrodd

Bydd data'n cael eu dadansoddi gan Dîm Prosiect Iechyd Cyhoeddus Cymru mewn SPSS. Yn dilyn y cynllun peilot, gall cydweithwyr yn Iechyd Cyhoeddus Cymru ofyn am weld newidynnau data ar gyfer eu gwaith dadansoddi ac adrodd eu hunain.

Bydd adrodd am ddata amllder yn cael eu pwysoli i ddemograffeg poblogaeth. Bydd dulliau dadansoddi o adrodd yn cael eu penderfynu fel rhan o'r peilot mewn ymgynghoriad â'r Grŵp Cyngori.

4. Amserlenni

Cychwynnir y prosiect ym mis Medi 2022. Mae Tabl 1 yn cyflwyno llinell amser y prosiect

Tabl 1: Amserlenni ar gyfer sefydlu a threialu'r panel poblogaeth

Dyddiad	Gweithgarwch
w/c 26 Medi 2022	Dyfarnu contract
w/c 26 Medi 2022	Cychwyn y prosiect gan gynnwys sefydlu methodoleg, samplu, a datblygu adnoddau
Dechrau Tachwedd 2022	Hyfforddiant cyfwelwyr gan gynnwys Safonau'r Gymraeg
Dechrau Tachwedd 2022	Dechrau peilot arolwg panel, i gynnwys recriwtio, casglu demograffeg waelodlin ac arolygu peilot cychwynnol.
Tachwedd 2022 - Mawrth 2023	Gweithredu peilot, recriwtio panel ac arolygu misol gyda ffeiliau data wedi'u glanhau'n rheolaidd a ddarperir

Diwedd Mawrth 2023	Adroddiad technegol yn nodi sefydlu'r panel a'r broses o weithredu arolygon a strwythur a dulliau ar gyfer gweithredu'r panel parhaus
O Ebrill 2023 ymlaen	Gweithredu'r panel yn rheolaidd.

5. Allbynnau

Bydd yr allbynnau o'r prosiect hwn yn cynnwys:

- Adroddiadau misol arferol
- Adroddiadau ychwanegol yn ôl y gofyn
- Potensial ar gyfer erthyglau cyfnodolion

Caiff adroddiadau a deunydd atodol (e.e. ffeithluniau) eu cyhoeddi ar wefan Iechyd Cyhoeddus Cymru a gellid eu lledaenu i amrywiaeth o randdeiliaid.

6. Rheoli'r Prosiect

Mae gwaith rheoli a gweithredu'r prosiect yn cael ei wneud drwy wahanol grwpiau. Bydd rheolaeth o ddydd i ddydd yn cael ei gynnal gan y Tîm Prosiect sydd wedi'i leoli yng Nghyfarwyddiaeth WHOCC, gyda mewnwelediad misol a geisir gan y Grŵp Cynghori traws-sefydliad, a mewnwelediad blynyddol a geisir gan y Grŵp Strategol lefel weithredol.

Mae gan Dîm y Prosiect brofiad helaeth o ddatblygu a gweithredu arolygon poblogaeth, gan gynnwys ar bynciau sensitif. Mae enghreifftiau o brosiectau perthnasol yn y gorffennol yn cynnwys sefydlu a rheoli: Arolwg Ymgysylltu â'r Cyhoedd ar Iechyd a Llesiant yn ystod Mesurau Coronafeirws; arolwg barn gyhoeddus Aros yn Iach yng Nghymru; a nifer o arolygon o'r boblogaeth sy'n mesur profiadau niweidiol yn ystod plentyndod mewn poblogaethau Cymreig ac eraill. Ar gyfer y Grŵp Cynghori, bydd cynrychiolaeth yn cael ei dynnu o bob rhan o'r sefydliad gan dynnu ar ystod amrywiol o dimau gan gynnwys polisi, iechyd rhyngwladol, ymchwil a gwerthuso, gwyddor ymddygiad, diogelu iechyd, gwella iechyd, sgrinio, diogelu, microbiolog, Gwella Ansawdd y GIG a Diogelwch Cleifion, cyfathrebu, adnoddau dynol, a gweithrediadau a chyllid.

Tîm y prosiect yw:

Yr Athro Karen Hughes (karen.hughes18@wales.nhs.uk)

Dr Catherine Sharp (Catherine.sharp@wales.nhs.uk) – Prif pwynt cyswllt

Dr Rebecca Hill (Rebecca.Hill@wales.nhs.uk)